

RHEOLAU, TELERAU AC AMODAU

Bydd eich data yn cael ei gadw'n ddiogel gan Amnesty y DU ar gyfer pwrpasau'r gystadleuaeth. Bydd eich data yn cael ei ddileu o fewn 6 mis i'r gystadleuaeth ddod i ben.

Rheolau ar gyfer cystadleuwyr

1. Mae'r telerau ac amodau sydd yn dilyn ('Rheolau'), y ffurflen cystadlu a ffurflen caniatâd, yn berthnasol i bob cystadleuwr.
2. Trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, rydych yn cytuno i ddilyn y rheolau yma. Os nad ydych yn cytuno gyda'r Rheolau yma, ni allwch gymryd rhan yn y gystadleuaeth.
3. Hyrwyddwr y gystadleuaeth yw Amnesty Rhyngwladol y DU, eu cyfeiriad yw: The Human Rights Action Centre, 17-25 New Inn Yard, London EC2A 3EA.
4. Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sydd yn byw yn y Deyrnas Unedig sy'n 18 mlwydd oed neu'n iau.
5. Mae'r gystadleuaeth wedi ei rannu mewn i 4 oedran:
 - a. Cynradd (Unigolion oed 10 ac iau)
 - b. Uwchradd Is (Unigolion oed 11-14)
 - c. Uwchradd Canol (Unigolion oed 15-16)
 - ch. Uwchradd Uwch (Unigolion oed 17-18)

Trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, rydych yn cadarnhau eich bod yn gymwys i gystadlu, ac yn gymwys i hawlio unrhyw wobwr gallwch ennill. Gall Amnesty Rhyngwladol y DU ofyn ichi ddarparu gwybodaeth sydd yn profi eich bod yn gallu cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

6. I gymryd rhan yn y gystadleuaeth, dylech ysgrifennu, darn sydd ddim mwy na 500 gair, neu fideo dim yn fwy na 2 munud sydd yn ateb y cwestiwn a roddwyd ar dudalen wê y gystadleuaeth (www.Amnesty.org.uk/use-your-voice).
7. Ni ddylech roi eich hunain neu eraill mewn peryg, cymryd risgiau neu dorri'r gyfraith er mwyn cynhyrchu neu greu unrhyw ddeunydd ar gyfer y gystadleuaeth.
8. Rydych yn gyfrifol am unrhyw gost o greu ac uwchlwytho eich darn ar gyfer y gystadleuaeth.
9. Ni fydd eich darn o waith yn cael ei rhoi yn ôl ichi, felly sicrhewch fod gennych gopi o'r gwaith cyn ei uwchlwytho.

10. Pan yn uwchlwytho eich gwaith, mae angen ichi ddarparu eich enw llawn, oed a chyfeiriad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma yn unig ar gyfer pwrpasau gweinyddol yn ymwneud a'ch gwaith ac ar gyfer y pwrpasau dilynol:

- a. mewn perthynas i'r gystadleuaeth, yn cynnwys gwirio eich hawl i gymryd rhan;
- b. i gyfathrebu gyda chi er mwyn trefnu cydnabyddiaeth (ac os rydych wedi cytuno, cyhoeddusrwydd) ac os yn briodol, i symud i ail gam y gystadleuaeth.

11. Dim ond unigolion a all gael eu hystyried ar gyfer y gystadleuaeth. Ni fydd gwaith ar ran rhywun arall neu waith grŵp yn cael eu hystyried.

12. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Dydd Sul yr 20fed o Fedi 2020. Mae'n rhaid sicrhau ein bod wedi derbyn y gwaith cyn 11.59yh. Ni fydd uwchlwythiadau ar ôl yr amser a nodwyd yn cael ei ystyried ar gyfer y gystadleuaeth.

13. Nid oes hawl i weithwyr neu asiant i Amnesty Rhyngwladol sydd wedi eu cysylltu â chread y gystadleuaeth neu weinyddu'r gystadleuaeth gystadlu.

14. Mae rhaid i'ch gwaith:

- a. fod yn waith gwreiddiol eich hun, a ni ddylid wedi cael ei gopïo wrth eraill. Mae rhaid i chi gytuno mai chi sydd yn berchen hawlfraint eich gwaith fel yr awdur;
- b. fod yn rhydd o unrhyw cynnwys nad oes ganddoch ganiatâd i'w ddefnyddio;
- c. fod yn ffeithiol gywir; a
- ch. fod yn rhydd o gynnwys anwedus, difenwol, sarhaus neu anaddas. Ni ddylid torri unrhyw gyfreithiau neu reoliadau (yn cynnwys unrhyw rwymedigaeth o breifatrwydd neu ymddiriaeth).

Os oes gan Amnesty y DU unrhyw reswm i greu nad yw eich gwaith yn dilyn y paragraff uchod, neu fod person yn gwrthwynebu i unrhyw gynnwys lle maent o dan sylw yn eich gwaith, mae'n bosib y bydd eich gwaith yn cael ei dynnu yn ôl o'r gystadleuaeth.

RHEOLAU, TELERAU AC AMODAU



15. Bydd pob darn o waith yn cael eu sgrinio ar gyfer pwrpasau diogelu plant. Os oes yna ddarn o waith yn cynnwys elfennau gofidus, mae'n bosib bydd Amnesty y DU yn cymryd camau i ddiogelu'r cystadleuydd ac unrhyw unigolyn arall gall fod wedi ei effeithio gan y cynnwys. Gall camau cynnwys derbyn cyngor wrth yr NSPCC, cysylltu'r cystadleuydd neu unigolyn a wnaeth cystadlu ar ran rhywun arall, a chyfeirio'r mater i'r awdurdodau priodol a/neu swyddog amddiffyn plant.

Dewis yr Enillwyr

16. Bydd panel o feirniad yn dewis un enillydd o bob grŵp oedran o bob gwlad: Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Gellir darparu gwybodaeth am y beirniad os ydych yn dymuno.

Bydd penderfyniad y beirniad yn cael ei gyhoeddi ar neu cyn y 27ain o Fedi 2020.

Fe fydd dewis y beirniad yn derfynol ac ni wneir unrhyw ohebiaeth.

Meini Prawf beirniadu

17. Bydd y darnau gwaith buddugol yn cael eu dewis ar sail y meini prawf sydd yn dilyn:

a. Mae'r pwnc a ddewiswyd yn ddiddorol ac yn trafod mater sydd yn uniaethu.

Mae'r wybodaeth yn ffeithiol gywir ac wedi ei esbonio yn eglur.

Iaith ac Arddull: Mae'r gwaith yn defnyddio iaith yn effeithiol i ennyn diddordeb.

Dadansoddi/Barn: Mae'r gwaith yn dadansoddi yn ogystal â disgrifio er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y darlennydd.

b. Bydd gwaith eithriadol hefyd yn cynnwys:

Ffynonellau: Bod eich gwaith yn dangos tystiolaeth o dynnu ar wahanol ffynonellau, yn cynnwys dyfyniadau ac ystadegau pan yn berthnasol.

Gall ffynonellau cael eu cyfeirio (nid yw cyfeiriadau yn rhan o'r cyfrif geiriau).

Cyhoeddi gwaith cystadleuwyr

18. Trwy uwchlwytho eich gwaith, rydych yn cytuno y gallwn gyhoeddi eich gwaith mewn rhai neu bob un o'r ffyrdd canlynol:

gall unrhyw waith o'r gystadleuaeth cael eu cyhoeddi ar wefan Amnesty Rhyngwladol ar unrhyw bryd, yn ddarostyngedig / destun i brosesau diogelu. Gellir cyhoeddi gwaith y cystadleuwyr gan ein cylchgrawn chwarterol ac unrhyw gyhoeddiadau arall Amnesty Rhyngwladol.

O dan yr amgylchiadau uchod, bydd enwau cyntaf ac oed yr enillwyr yn cael eu hargraffu gyda'u gwaith. Fe fydd Amnesty y DU yn gofyn am eich caniatâd a chaniatâd rhieni/gofalwyr i gyhoeddi gwaith a fydd yn gwneud chi yn fwy adnabyddus. Ni fyddwn yn gwneud hyn heb dderbyn caniatâd bellach.

19. Os bydd eich gwaith yn ennill y gystadleuaeth, (ac os ydych yn iau nag 18 a bod eich rhiant neu ofalwr yn cytuno), mae'n bosib byddwn yn cysylltu gydag aelodau o'r wasg leol i geisio trefnu cyhoedduswydd yn y cyfryngau am eich gwaith.

20. Chi bydd yn berchen hawlfraint eich gwaith fel yr awdur yn ddarostyngedig /destun i'n hawl i ddefnyddio'ch gwaith yn dilyn y rheolau yma.

21. Trwy uwchlwytho eich gwaith yn y gystadleuaeth (a thrwy ddarparu caniatâd priodol o ran y defnydd o'ch enw a llun pan yn briodol), rydych yn rhoi i Amnesty y DU:

- caniatâd i'ch gwaith i gael ei gyhoeddi yn y ffyrdd a esboniwyd uchod, a rhoi caniatâd trwydded fyd-eang unigryw, di-freindal i ni ailgyhoeddi eich gwaith ym mhob fformat a chyfryngau (gan gynnwys fformat electronig a chopi print corfforol) at unrhyw ddibenion.

Rydych hefyd yn cydnabod ac yn cytuno ein bod yn gallu ail-greu eich gwaith ar ein gwefannau yn rhad ac am ddim am byth fel rhan o'n gwasanaeth archif;

RHEOLAU, TELERAU AC AMODAU

- yr hawl i ddefnyddio eich enw cyntaf, oed, a thref neu ddinas yr ydych yn byw ar gyfer y pwrpas o greu cyd-destun ar gyfer y gwaith;

- pan fod enillwyr (a'u rhieni/gofalwyr pan bod enillwyr yn iau nag 18) wedi rhoi caniatâd i gyfryngau, ffilmio gwaith cyhoedduswydd a ffotograffau, bydd gan Amnesty y DU'r hawl i ail-greu a hyrwyddo eu henwau a lluniau yn fyd-eang ym mhob fformat a chyfryngau sydd yn cynnwys, cyhoeddiadau, gwefannau, cynhyrchion a rhaglennu.

22. Rydych yn cytuno bod Amnesty Rhyngwladol y DU yn cael torri, golygu, cropio neu drefnu eich gwaith fel maent yn gweld yn briodol er mwyn eu cyhoeddi ymddangos ar eu gwefan a chylchgrawn Amnesty y DU, gallwn hefyd dynnu eich gwaith o'r wefan ar unrhyw bryd. Gallwn hefyd torri, golygu, cropio neu drefnu eich gwaith (yn cynnwys y ffyrdd a esboniwyd isod) os oes gennym reswm i gredu ei fod yn torri unrhyw hawl trydydd parti (yn cynnwys unrhyw hawlfraint neu hawl preifatrwydd) neu unrhyw gyfraith neu reoliadau arall. Rydych felly yn hepgor unrhyw hawl 'moesol' a all fod gennych yn eich gwaith ar gyfer pwrpasau'r paragraff yma. Rydych hefyd yn cytuno i beidio gwneud unrhyw hawl wedi ei seilio ar hawliau o'r fath mewn cysylltiad â defnyddio'ch gwaith yn unol â'r Rheolau.

Cael y caniatâd priodol ar gyfer eich gwaith yn y gystadleuaeth

23. Trwy uwchlwytho eich gwaith rydych yn caniatáu iddo fod yn rhan o'r gystadleuaeth, ac ar gyfer defnyddio eich gwaith yn y ffyrdd a esboniwyd uchod. Bydd Amnesty y DU yn gofyn am ganiatâd ychwanegol wrthoch (neu eich rhieni/gofalwyr pan fod cystadleuwyr yn iau nag 18) ar gyfer unrhyw waith yn y cyfryngau, digwyddiadau pellach sydd yn rhan o'r gystadleuaeth, a cyn cyhoeddi eich gwaith ochr yn ochr â unrhyw wybodaeth a all eich gwneud yn fwy adnabyddus fel yr awdur.

Rheolau Eraill

24. Nid oes angen prynu dim i fod yn rhan o'r gystadleuaeth.

25. Dylid danfon unrhyw gŵyn yn ymwneud a'r gystadleuaeth cael eu i Amnesty Rhyngwladol y DU, y cyfeiriad yw: The Human Rights Action Centre, 17-25 New Inn Yard, London EC2A 3EA.

26. Mewn absenoldeb o esgeulustod, nid yw Amnesty y DU yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw ddifrod, colled, rhwymedigaethau, anaf neu siom a achoswyd neu a ddioddefwyd gennych fel canlyniad o gymryd rhan yn y gystadleuaeth neu trwy dderbyn gwobrau yn cynnwys ar gyfer unrhyw anaf, colled neu ddifrod i'ch cyfrifiadur neu gyfrifiadur unrhyw berson arall yn gysylltiedig gydag neu o ganlyniad i lawrlwytho unrhyw ddeunyddiau yn gysylltiedig gyda'r gystadleuaeth.

27. Mae gan Amnesty y DU yr hawl ar unrhyw adeg dros gyfnod o amser i addasu, terfynu neu atal dros dro neu'n barhaol y gystadleuaeth gyda neu heb rybudd ymlaen llaw oherwydd rhesymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth (gan gynnwys, heb gyfyngiad, mewn achos o dwyll a ragwelir, a amheuir neu a fydd yn wirioneddol). Bydd dewis Amnesty y DU, ym mhob mater o dan eu rheolaeth, yn derfynol ac yn rhwymedig.

28. Ni fydd Amnesty y DU yn atebol i unrhyw fethiant i gydymffurfio â'i rwymedigaethau lle mae'r methiant wedi ei achosi gan rywbeth y tu hwnt i'w reolaeth resymol. Bydd hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, tywydd, tân, llifogydd, corwynt, streic, anghydfod diwydiannol, rhyfel, gelyniaethu, aflonyddwch gwleidyddol, terfysgoedd, cynnwrf sifil, damweiniau anochel, goruchwyllo deddfwriaeth neu unrhyw amgylchiadau eraill sy'n gyfystyr â 'force majeure'.

29. Bydd Amnesty y DU yn dilyn eu canllawiau arfer gorau wrth ystyried materion diogelu data a diogelu plant wrth weinyddu'r gystadleuaeth hon.

30. Mae gan Amnesty y DU'r hawl i olygu gwaith er mwyn cydymffurfio gydag ein Polisi Diogelu plant, yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, newid enwau cystadleuwyr er mwyn diogelu hunaniaeth y cystadleuwyr a fydd yn cael eu cynnwys.

31. Mae gan Amnesty y DU'r hawl i ddatgymhwyso unrhyw waith nad yw yn dilyn y rheolau uchod neu sydd yn codi pryderon am ddiogelwch plant.

32. Mae'r Rheolau yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr. Os oes unrhyw anghytuno yn codi o ganlyniad i'r rheolau neu'r gystadleuaeth na ellir ei ddatrys yn gyfeillgar, ac rydych yn dymuno dwyn achos llys, bydd yn rhaid ichi wneud hyn o fewn y Deyrnas Unedig.